# Y Ddolen

## Papur

Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin
a Bancyfelin



**Popeth glân a phrydferth**
**A phob creadur byw,**
**Popeth doeth a rhyfedd,**
**Fe'u crewyd oll gan Dduw.**

**Cecil Frances Alexander**
**Cyf. Jane Owen**

**Rhifyn 4**
**PAPUR GORFFENNAF / AWST 2026**

# Gair gan ein Gweinidog

### Glandeg – Apêl Medi 2026

***FAINT*** ohonom ni sy'n estyn am *shower gel*, bar o sebon, siampw, brwsh a phast dannedd, deodorant, brwsh gwallt, moisturiser, sebon a raser siafio…. pob bore?

Faint ohonom ni fenywod na fyddai'n mynd allan o'r tŷ heb bach o *mascara*, *foundation* a *lip-stic* neu bowdwr wyneb, a bechgyn heb eu body spray neu aftershave?

Mae hylendid personol yn holl bwysig. Nid yn unig mae'n fater o gadw eich cyrff yn iach ond hefyd mae'n cyfrannu'r fawr at hunan-werth, hunan-hyder a hunan-les i bawb.

Tybed a gawsoch chi erioed y profiad o osgoi eistedd ar bwys rhywrai oherwydd nad oeddent yn medru rheoli eu hylendid personol? A ydych yn cofio plentyn yn eich dosbarth ysgol a oedd yn eistedd ar ei ben ei hun am resymau tebyg?

'Does dim esgus yn yr oes hon', rwy'n eich clywed yn dweud… 'mae digon o nwyddau ar y farchnad.'

Cywir. Ond mae cost y nwyddau hylendid personol mwyaf elfennol yn medru bod yn ddrud iawn. Canlyniad hyn yw bod tlodi hylendid yn broblem fawr.

Faint ohonoch sy'n teimlo'n well ar ôl bod yn y siop trîn gwallt neu'r barbwr?  Nid moethusrwydd yw torri gwallt. Mae'n rhan o hunan-barch a hunan-werth person.

Mae hylendid personol yn hawl meidrol ac nid yn fater o foethusrwydd.

Teitl ymgyrch Rhwydwaith Merched Undeb yr Annibynnwyr eleni yw **'Glandeg'**.  Lansiwyd yr ymgyrch yng Ngyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhaliwyd yn Abertawe eleni.

Byddwn yn cefnogi'r ymgyrch hon yn eglwysi'r Ofalaeth yn ystod mis Medi. Bydd blwch ar gael ym mhob capel ar gyfer pawb sydd am gyfrannu a'r nwyddau yn cael eu rhannu rhwng canolfanau lleol sy'n estyn allan i'r gymuned ac yn eu plith, Canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth, Canolfan

Trais Domestig, Banciau Bwyd, Wardiau Ysbyty Glangwili, Banciau Glanweithdra and Banciau Prydferthwch (Superdrug).

**Dywedodd Iesu, “Yr wyf wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a’i gael yn ei holl gyflawnder” (Ioan 10:10).**

**Gweddïwn**



Dad Nefol,

Diolch i Ti am rodd bywyd ac am y fraint o gael bod yn fendith i'r rhai o'n cwmpas.

Llanw ein calonnau â thosturi, doethineb, a chariad fel y gallwn annog eraill i ddarganfod y pwrpas yr Wyt Ti wedi'i osod yn eu bywydau.

Arglwydd, defnyddia ni fel offerynnau Dy dangnefedd, gan helpu pobl i dyfu mewn ffydd, cariad, pwrpas, a gobaith. Boed i bob person a gyfarfyddwn gael ei atgoffa ei fod yn werthfawr, wedi'i greu â phwrpas, ac yn gallu byw bywyd cyflawn dan Dy arweiniad.

Boed inni bob amser geisio codi eraill i fyny, fel y gallwn gyda'n gilydd ffynnu a dod â gogoniant i'th enw.

Yn enw Iesu Grist,

**Amen**



# DARLLENIADUR

| Mis Gorffennaf | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 45: 10-17 |
| Wythnos 2 | Salm 119:105-112 |
| Wythnos 3 | Salm 139:1-12,23-24 |
| Wythnos 4 | Salm 105: 1-11 |
| **Mis Awst** | **Darlleniad** |
| Wythnos 1 | Mathew 14: 13-21 |
| Wythnos 2 | Mathew 14: 22-23 |
| Wythnos 3 | Mathew 16: 13-20 |
| Wythnos 4 | Mathew 16: 21-28 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**ALUN CHARLES**
**CAPEL BANCYFELIN**
**CAPEL CANA**

*at gyhoeddi'r Ddolen y mis hwn*

YN DYMUNO NODDI'R DDOLEN?
Cyswllt
PHILIP JONES (TRYSORYDD)
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu ei osod mewn amlen a'i ddychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei roi yn y blwch casglu.

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

## Y TUDALEN BLAEN

### Popeth glân a phrydferth

***CEIR*** cytgan emyn ar y tudalen blaen sy'n moli gwychder creu Duw. Mae’r geiriau yn ein hatgoffa bod pob agwedd ar natur - o'r blodyn lleiaf hyd at y mynydd mwyaf - yn dystiolaeth o gariad a gofal Duw.

Yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst cawn gyfle i ymlacio a mwynhau creadigaeth Duw ar ei gorau a’i gwerthfawrogi’n llawn.


Cecil F. Alexander

Ganed awdur yr emyn, Cecil Frances Alexander ym mis Ebrill 1818, yn Nulyn, Iwerddon. Priododd glerigwr, William Alexander, a ddaeth yn Esgob Derry ac yn Archesgob Armagh, a chawsant bedwar o blant. Treuliodd Frances lawer o’i hoes yn helpu eraill. Gyda’i chwaer, er enghraifft, sefydlodd ysgol ar gyfer y byddar. Bu farw 12 Hydref 1895 a’i chladdu ym Mynwent Dinas Derry, Londonderry, Gogledd Iwerddon.

Roedd Frances yn emynyddes doreithiog. Ymysg ei hemynau mwyaf adnabyddus mae *There is a green hill far away* a droswyd i’r Gymraeg gan Elfed – *Draw, draw ymhell mae gwyrddlas fryn* (Caneuon Ffydd 490) a’r garol *Once in Royal David’s City* y ceir efelychiad ohoni gan Huw Walter Jones (1894-1959) - *Draw yn ninas Dafydd Frenin* (Caneuon Ffydd 457).

Cyfrol enwocaf Francis yw *Hymns for Little Children (*1848) ac ynddi ceir yr emyn *All things bright and beautiful.* Ei nod wrth ysgrifennu’r emyn hwn oedd helpu i esbonio i blant mai Duw yw Gwneuthurwr y Nefoedd a’r Ddaear. Troswyd yr emyn i’r Gymraeg gan Jane Owen, Llanfairfechan ac fe’i cyhoeddwyd yn Atodiad i Lyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd 1985. Cytgan yr emyn hwn sydd ar y tudalen blaen ac fe ddyfynnir yr emyn llawn isod:

Pob blodyn bach sy’n agor,
Pob ‘deryn bach a gân,
Efe a wnaeth eu lliwiau
A’u gloyw adenydd mân.

Y mynydd o liw porffor,
Yr afon fach gerllaw,
Y machlud haul, a'r bore
A'i fwyn oleuni draw.



Yr oerwynt yn y gaeaf,
Yr hafaidd haidd a'r ŷd,
Yr ardd a'r ffrwythau aeddfed –
Efe a'u gwnaeth i gyd.

Y prennau yn y goedwig,
Y glaswellt yn y pant,
Y brwyn ar lan yr afon,
A bwrlwm pêr y nant.

## CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH

NOS SUL, 27 MEDI 2026
AM 5 O'R GLOCH YR HWYR
CAPEL BABELL ZION NEWYDD, PENSARN, CAERFYRDDIN SA31 2DJ

Arweinydd: Parchedig Wyn Maskell, Aberteifi
Organydd: Carole Rees,
Eitemau gan Gôr Meibion Caerfyrddin

Rihyrsals:
Nos Sul, 12 Gorffennaf am 5 o'r gloch yn Festri Y Tabernacl.
Arweinydd: Helen Gibbon. Cyfeilydd: Meredydd Edwards.

Nos Sul, 6 Medi am 5 o'r gloch yn Festri Y Priordy.
Arweinydd: Nicki Roderick. Cyfeilydd: Y Priordy.

Brif Rihyrsal – Nos Sul, 13 Medi am 5 yr hwyr yng Nghapel Babell Zion Newydd.
Arweinydd: Helen Gibbon. Organydd: Carole Rees.

***Rhaglenni'r Gymanfa ar gael gan Elisabeth Evans (E), Olga Williams (HA) a Huw Michael (P) - £3.50 yr un***

---

***REBECCA A'I CHASGLIAD O FATHODYNNAU ….***



***Cofiwch droi at bbccymrufyw i ddarllen am gasgliad Rebecca Hayes (P) o fathodynnau ac fel y mae'r cyfan yn cofnodi hanes ei phlentyndod, ond hefyd ei hardal leol a'r genedl gyfan.***

**Joan Thomas**



# OEDFA CYMORTH CRISTNOGOL YN Y TABERNACL

***FEL*** y gwyddoch, ar y pumed Sul o bob mis mae hi wedi dod yn arfer i gapeli Cymraeg y dref gydaddoli, a phumed Sul mis Mai, croesawyd pawb yn gynnes iawn i'r Tabernacl. Oedfa Cymorth Cristnogol oedd hon, a hynny dan ofal aelodau'r capeli Cymraeg, gyda Mari McNeill, pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, yn ein hannerch.  Braf oedd gweld cymaint wedi ymgasglu, gan gynnwys rhai o Eglwys Crist a gymerodd ran, yn ogystal ag aelodau o Elim, Heol Awst, y Priordy a'r Tabernacl.

Thema'r gwasanaeth yw "gweithredu'n ffyddlon", a chyflwynir y neges drwy brofiadau Fridah Moraa a




Belinda Kasuki, dwy ffermwraig drefol sy'n byw mewn cymuned anffurfiol wasgaredig o'r enw Dagoretti, yn Nairobi, Cenia. Mae bywyd yn anodd iawn iddynt gan nad oes digon o dai, dim mynediad dibynadwy at ddŵr tap, a dim ond ychydig o gyfleoedd i ennill incwm, ac felly i fwydo'u plant a'u hwyrion.  Wynebodd Fridah a Belinda yr her hon gyda chefnogaeth Beacon of Hope, partner Cymorth Cristnogol yn Nairobi, a'r nerth sy'n dod iddynt bob dydd i ddal ati oherwydd eu cred bod Duw yn ffyddlon ac yn gofalu amdanynt.



Y rhai o eglwysi'r Ofalaeth a gymerodd ran drwy gyflwyno hanes y ddwy wraig, gweddïo, darllen o'r Beibl, a chyflwyno emynau pwrpasol, oedd Brian Walters (Elim), Janet Evans, Helen Jones, Olga Williams, a Joan Thomas (Heol Awst) a Nia Lewis, Alison Parsons, a Luned Voyle (Y Priordy).  Mae cefnogaeth barhaus yn hanfodol i'r bobl hyn fel y bo mwy o ffermwyr trefol yn gallu cael hyfforddiant ac adnoddau; ac yn ei neges, nododd **Mari McNeill** mai'r hyn sy'n bwysig inni ei wneud yw gweithredu, gweddïo,

a chefnogi drwy gyfrannu.  Yr organydd medrus yn yr oedfa fendithiol hon oedd Heather Williams (Y Priordy).







## SUL Y TADAU YN Y PRIORDY




***BYDDWN*** yn edrych ymlaen at ddathlu Sul y Tadau yn y Priordy bob blwyddyn ar y trydydd Sul o Fehefin. Digwyddodd hynny ar yr ail Sul eleni oherwydd y byddwn ar ein Pererindod blynyddol ar y trydydd Sul.

Mae'n debyg bod Sul y Tadau yn y DU wedi deillio o'r dathliad Americanaidd. Y grêd yw bod dynes Americanaidd o'r enw **Sonora Smart Dodd** wedi dechrau traddodiad Sul y Tadau trwy gymryd ysbrydoliaeth o ddathliadau Sul y Mamau Americanaidd.



Diolch i Ieuan Wyn, Meilyr Gruffydd, Tim Hayes a Huw Morgans am olrhain yr hanes i ni a dangos fel y mae'r dathlu'n digwydd mewn gwahanol wledydd yn y byd a Huw Jones am ein harwain mewn gweddi o ddiolch. Cofiwyd am un o blant yr Ysgol Sul, Ifan Morgans, sydd yn yr Ysbyty a dymunwyd gwellad buan iddo.

Roedd y cyhoeddiadau yng ngofal Luned Thomas a'r casglyddion oedd Alys, Mabli, Miriam, Greta a Noa.

Nid dyna oedd ddiwedd y gwaith i'r casglyddion, fodd bynnag. Cafwyd cwis yn seiliedig ar y tadau sydd yn y Beibl a dewiswyd y casglyddion i gynrychioli'r Ysgol Sul i gystadlu yn erbyn yr oedolion! Mewn cystadleuaeth agos iawn roedd y sgôr yn gyfartal ar y diwedd – diolch i dipyn o lwc a gafodd yr oedolion wrth ddyfalu'n gywir fwy nag unwaith! Do, cafwyd llawer o hwyl ond dysgon ni hefyd lawer am dadau'r Beibl, fel Adda, Abraham a Moses ac ati, gan ein Gweinidog wrth symud o gwestiwn i gwestiwn. Cofiwyd yn arbennig am Dduw, ein Tad ni oll, creawdwr y byd a phopeth sydd ynddo.

Adroddwyd Salm 103 gennym ar ddechrau'r gwasanaeth a chanwyd yr emynau canlynol, Deuwch gyda mi (54), Molwch ar yr Utgorn (57), Hedd sy'n llifo (281) ac O'r fath gyfaill (345) i gyfeiliant Band y Priordy.




***AR*** ddiwedd gwasanaeth bywiog a bendithiol iawn derbyniodd pob tad un o siocledi Heroes wrth adael – dewis priodol iawn, ddywedwn i. Hefyd, roedd Jammie Dodgers- y bisgedi gyda chalon yn y canol - i'r plant am iddynt gyfrannu mor dda.

# TESTAMENT NEWYDD WILLIAM TYNDALE

***MAE*** eleni'n flwyddyn nodedig yn hanes cyfieithu'r ysgrythurau i'r Saesneg. Pum can mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon y cyhoeddwyd Testament Newydd William Tyndale yn yr iaith honno.



Ganwyd William Tyndale (c.1494) yn Swydd Caerloyw. Yn ieithydd talentog, meistrolodd o leiaf saith o ieithoedd. Graddiodd yn Rhydychen a bu'n astudio yng Nghaergrawnt. Roedd yn offeiriad ac yn ysgolhaig o fri. Fe'i hargyhoeddwyd mai'r Beibl yn unig a ddylai benderfynu arferion ac athrawiaethau'r eglwys ac y dylai credinwyr allu darllen y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Yn y cyfnod hwnnw Lladin oedd yn unig iaith awdurdodedig ar gyfer yr Ysgrythurau yng Ngorllewin Ewrop.

Dechreuodd Tyndale weithio ar gyfieithiad o'r Testament Newydd yn gynnar yn y 1530au. Fodd bynnag, wynebai wrthwynebiad mawr a chafodd ei atal rhag gwneud hynny gan yr awdurdodau eglwysig. Barnwyd fod ei waith yn herio awdurdod clerigol, yn hyrwyddo syniadau Protestannaidd, ac yn gwrthod arferion traddodiadol yr Eglwys Gatholig.

Sylweddolodd Tyndale na allai gyflawni ei nod yn llwyddiannus yn Lloegr.  Aeth i'r Almaen yn 1524, i gwblhau'r gwaith, gan dderbyn cefnogaeth ariannol gan fasnachwyr cyfoethog Llundain. Ym 1525, tra oedd yn byw yn Wittenberg, y cwblhaodd Tyndale ei gyfieithiad. Ymddangosodd rhifyn rhannol yn 1525, wedi'i argraffu yn Cologne, ond gorfodwyd Tyndale i ffoi cyn y gellid ei gwblhau. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf llawn ohono yn 1526 yn Worms, yr Almaen. O'r fan honno cafodd yr 'agraffiadau wythblyg' bach eu smyglo i mewn i Loegr trwy eu cuddio mewn nwyddau, barilau, bwndeli o gotwm, a sachau o flawd. Gwrthwynebai Harri VIII y cyfieithiad a chafodd ei gondemnio gan swyddogion yr eglwys. Cafodd miloedd o gopïau eu cipio gan yr awdurdodau a'u llosgi'n gyhoeddus!

Roedd cyfieithiad Tyndale yn arbennig oherwydd mai hwn oedd y Beibl Saesneg cyntaf i ddefnyddio'r testunau Hebraeg a Groegaidd

gwreiddiol yn hytrach na'r Fwlgat, y cyfieithiad Lladin o'r Beibl a wnaed



gan Sant Sierôm yn y bedwaredd ganrif. Cafodd Tyndale ei ysbrydoli'n drwm gan gyfieithiad Almaenig Martin Luther a wasanaethodd fel model i'w waith. Dylanwad mawr arall oedd gweithiau Desiderius Erasmus. Cyfieithiad Tyndale hefyd oedd yr un Saesneg cyntaf i ddefnyddio technoleg y wasg newydd. Roedd dyfodiad y wasg agraffu yn golygu bod modd lledaenu'r Ysgrythurau a hynny mewn modd fforddiadwy. Helpodd hyn hefyd i ledaenau syniadau'r Diwygiad Protestannaidd yn gyflym.

Diwygiodd Tyndale ei Destament Newydd mewn argraffiadau diweddarach, gyda diwygiadau nodedig a gyhoeddwyd yn 1534 a 1535 i gywiro camgymeriadau a sicrhau cywirdeb.

Pan oedd y Testament Newydd wedi'i gwblhau, dechreuodd Tyndale weithio ar y Hen Destament. Cyhoeddwyd y Pumllyfr yn Marburg yn 1530, gyda phob un o'r pum llyfr yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu ar wahân. Parhaodd i weithio ar gyfieithu'r Hen Destament ond cafodd ei garcharu yn Antwerp cyn iddo gael ei gwblhau. Costiodd ei gredo'n ddrud iawn iddo. Wedi'i gyhuddo a'i gael yn euog o heresi cafodd ei gondemnio i farwoleth. Fe'i tagwyd ac yna'i losgi wrh y stanc yn Vilvoorde yn 1536.

Mae gwaith Tyndale o bwys hanesyddol nid yn unig am ei eglurder ieithyddol a'i hygyrchedd i bobl gyffredin ond hefyd ei ddylanwad ar Feiblau Saesneg diweddarach, gan gynnwys Fersiwn y Brenin Iago. Dim ond tri chopi o argraffiad gwreiddiol 1526 sy'n goroesi heddiw, ac maent wedi'u dal yng Nghadeirlan Sant Pawl yn Llundain, Llyfrgell Brenhinol Prydain, a Llyfrgell Genedlaethol Württemberg yn Yr Almaen. Dylanwadodd ei waith yn fawr hefyd ar yr iaith Saesneg yn gyffredinol a bu'n gyfrwng i'w chyfoethogi.



***DIM*** ond unwaith mae'r testun sy'n eiddo i Eglwys Sant Pawl wedi bod ar gael i'r cyhoedd ei weld, yn 2017 ac erioed o'r blaen fel rhan o arddangosfa agored. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn mynd i drafferthion mawr i amddiffyn ei gopi goroesol, drwy ddefnyddio casyn arddangos sy'n ysgafn ac yn ddiogel rhag bwledi gyda thymheredd dan reolaeth. Bydd yr arddangosfa yn Sant Pawl, *A Dangerous Calling*, ar gael tan ddiwedd mis Chwefror 2027.

## PANED A SGWRS YNG NGWESTY'R LLWYN IORWG







## OEDFA YM MHARC Y DREF DAN NAWDD HENADURIAETH MYRDDIN, DOSBARTH CAERFYRDDIN






**Oedfa yng Nghartref Glyn Nest**



Ar brynhawn bendigedig o haf, teithiodd tri llond car o aelodau i gyfeiriad Castellnewydd Emlyn ar gyfer cynnal oedfa yng Nghartref Gofal Glyn Nest, ble mae un o aelodau ffyddlon Heol Awst yn preswylio, sef Lyn Jenkins.

Derbyniwyd croeso arbennig a llond lolfa o breswylwyr a ffrindiau yn uno yn y mawl.

Roedd yr oedfa yng ngofal Beti-Wyn, a darllenwyd o'r Gair gan Donna George (Gweinidog dan hyfforddiant) ac roedd y Parchedig Siân Elin, Caplan Glyn Nest yno i'n croesawu hefyd. Roedd mynd ar y canu a oedd yn cael ei arwain gan Beti Emanuel a fu'n organyddes am flynyddoedd yng Nghapel Mair, Aberteifi ac sy'n chwaer i David Jenkins (HA). Olga Williams (HA) oedd wrth y piano.

Wedi'r oedfa cafwyd cyfle i sgwrsio â'r deiliaid - nifer ohonynt â chysylltiadau â'r ymwelwyr - a mwynhau paned a chacen cyn ymadael. Diolch am y croeso yng Nglyn Nest a dioch i bawb a ddaeth i'r oedfa.

**EISIAU GWYBOD MWY AM GYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN? TROWCH AT: CYFUNDEB.COM**

**Peter Hughes Griffiths…**



## O Festri Elim i'r Albert Hall

***YN*** grwt deunaw oed fe es i yn syth o Ysgol Ramadeg Llandysul i fod yn fyfyriwr yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin ym Medi 1958. Yn lwcus i fi, nid oedd rhaid i mi wneud y cyfnod Ymarfer Milwrol gan mai hon oedd y flwyddyn y penderfynodd y Llywodraeth Brydeinig i ddileu'r orfodaeth honno ar fechgyn ifainc.

Yr arferiad yng nghyfarfod cyntaf Cymdeithas Gymraeg y Coleg oedd cynnal rhyw fath o Noson Lawen, gyda'r myfyrwyr newydd yn cymryd rhan er mwyn i bawb ddod i adnabod ei gilydd.

Fy nghyfraniad i i'r noson oedd adrodd darn digrif a ysgrifennwyd gan Aled Gwyn a finne, ac yn wir fe aeth y cyflwyniad 'lawr yn dda'. Buan y gwelwyd fod amrywiaeth o dalentau ymhlith y myfyrwyr newydd yn ogystal â'r ail flwyddyn.

Gan fod Norah Isaac a Bobi Jones yn bresennol ac wedi mwynhau'r



eitemau yn fawr iawn dyma nhw'n ein cymell i sefydlu 'Parti Noson Lawen' ac o fewn ychydig wythnosau fe ddaeth gwahoddiad trwy law Dewi Thomas, Brodirion ar y pryd, i gynnal Noson Lawen yn Festri Capel Elim, Ffynnon-ddrain yn gynnar yn 1959.

Yn y cyfamser roedd y cerddor Dr Terry James wedi ymweld â'r Coleg ac wedi trefnu trwy Norah bod myfyrwyr Y Drindod yn gwneud cyflwyniad a meim yn seiliedig ar hanes Dewi Sant yn y Cyngerdd Gŵyl Dewi Mawreddog Blynyddol yn yr Albert Hall yn Llundain.

Ond, rwy'n cofio'n dda am y Noson Lawen gyntaf honno i ni fel myfyrwyr ei chynnal yn Festri Elim a'r lle yn llawn. Fe ges i gyfle i arwain rhan o'r noson yn ogystal ag adrodd rhai darnau digrif. Tybed sut siâp oedd arna i?

Un o'r sêr oedd Mair Williams (Cooper wedyn) o Langadog, a

hithau'n gantores amryddawn ac yn medru iodlo a chwibanu ac yn ennill encôr o hyd! Yna, Dewi Bebb a enillodd ei gap cyntaf i dîm rygbi Cymru pan oedd yn y coleg, yn canu deuawdau gyda Dewi Thomas o Bontarddulais.  Roedd y Parti Merched mor swynol ac roedd rhaid cael sgets neu ddwy ynghyd â Tony Moore o Gaerffili yn gyfeilydd a John Garnon a'i delyn.  A'r peth arall a wnaeth argraff arna i'r noson honno oedd y wledd a gawson ni ar y diwedd, gan gynnwys treiffl bendigedig, brechdanau ham a chacennau amrywiol.  Braf yw cael dweud bod y traddodiad hwnnw'n parhau yn Elim hyd y dydd heddiw!



Ein perfformiad cyhoeddus nesaf fel myfyrwyr oedd ar lwyfan yr Albert Hall Sadwrn Gŵyl Dewi o flaen rhyw wyth mil o bobl. Cyflwyniad oedd hwn wedi ei ysgrifennu a'i gynhyrchu gan Norah Isaac.

Wrth edrych yn ôl fel hyn, braf yw sylweddoli bod Festri Elim, Ffynnon-ddrain wedi chwarae rhan allweddol wrth i mi ddechrau ar fy nhaith 'O Lwyfan i Lwyfan', ac os oedd y fraint o fod yn yr Albert Hall rhyw wythnos yn ddiweddarach yn bwysig, bydd y profiad o berfformio i lond Festri yn Elim, ac yn enwedig y wledd ar y diwedd, yn aros yn y cof am byth!

***A*** braf yw cael cyhoeddi y byddaf nôl yn **Festri Elim am 1 o'r gloch ar ddydd Mawrth y 6ed o Hydref ar wahoddiad Cymdeithas Merched Elim**. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at hynny!



## MYNWENT ELIM

Mae'r domen sbwriel ym mynwent Elim bellach wedi ei chlirio diolch i Roger Evans. Gofynnir yn garedig i bawb sy'n ymweld â'r fynwent i fynd ag unrhyw hen flodau, neu sbwriel adref gyda nhw.
Diolch yn fawr iawn.

## OEDFA AELODAU CANA A BANCYFELIN

Roedd yr oedfa b'nawn Sul 31 Mai yng ngofal yr aelodau a chwmni ffyddlon wedi dod ynghyd i festri Cana. A hithau bron yn fis Mehefin, mis y twrnameintiau tenis, fe'n harweiniwyd i feddwl fod bywyd yn aml fel gêm o denis, yn llawn camgymeriadau, yn mynnu ailgodi ar eich traed ar ôl methu, yn gofyn am gryfder meddyliol ac yn ein hannog i ddal ati. Cymerwyd rhan gan Marlene Jones, Non James a Rhian Bowen o Gana a Joanne Richards, Trefina Jones ac Eirian Thomas o Fancyfelin. Yr organydd oedd Mair Jones. Diolch i bawb.

## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Emyr James ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn





## PANED A SGWRS

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**BORE MERCHER 23 MEDI 2026 – 10.30**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Croeso cynnes i bawb**



## Podlediad Yr Ofalaeth

*Gwrandewch arno ni ar:*

**Spotify:**
https://open.spotify.com/show/6NM0ieGztlimmraEMzw9xC

**ApplePodcasts:**
https://podcasts.apple.com/us/podcast/oedfaoedd-beti-wyn/id1612830856?uo=4

**Spreaker:**
https://www.spreaker.com/show/oedfa-gan-beti-wyn-1
iHeartRadio: https://iheart.com/podcast/93688407

**Deezer:**
https://www.deezer.com/show/347206



**Yn cynnwys holl oedfaon digidol, Papur yr Ofalaeth a chyfweliadau**

**Olga Williams**



## PERERINDOD YR OFALAETH 2026

***AR*** ddiwrnod braf o haf, aeth bws llawn ar ein Pererindod blynyddol i ardal Mynydd Bach, Abertawe. Pam mynd i Fynydd Bach ry'ch chi'n gofyn? Wel i olrhain hanes yr emynydd Daniel James (Gwyrosydd), awdur yr emyn 'Calon lân yn llawn daioni'.

Cafwyd ychydig o hanes diddorol Gwyrosydd gan ein Gweinidog ar y bws cyn cyrraedd Y Welcome Inn yn Mynydd Bach i gael paned o goffi.

Wedyn dyma ni'n mynd i Gapel Annibynnol Mynydd Bach, Achos cyntaf yr Annibynwyr yn ardal Abertawe. Dechreuodd yr achos pan ddaeth ychydig ynghyd i addoli mewn adeiladau lleol yn 1640 ac adeiladwyd y capel yn 1762. Bu Capel Mynydd Bach yn fam eglwys i lawer o eglwysi annibynnol yr ardal. Mae'r Capel bellach yn Ganolfan er cof am Gwyrosydd a'i enwi yn 'Ganolfan Calon Lân'.

Cafwyd Oedfa a Myfyrdod arbenning yng ngofal ein Gweinidog yng Nghapel Mynydd Bach i goffáu'r emynydd Gwyrosydd. Un o'i emynau mwyaf cyfarwydd yw 'Calon lân yn llawn daioni' sydd yn seiliedig ar un o'r Gwynfydau, 'Gwyn eu byd y pur o galon oherwydd cânt hwy weld Duw'. 'Diolch yn fawr i'n Gweinidog am yr hanes cyflawn (Cofiwch wrando ar yr Oedfa Ddigidol 21/6/26). Daeth yr Oedfa i ben drwy ganu'r emyn Calon Lân gyda Heather Williams yn cyfeilio.

Diddorol iawn oedd gweld enwau'r cyn-weinidogion ar lechen marmor a'r fur y capel gydag enw Y Parchedig T James Jones wedi ei naddu arni. Cafodd T James Jones ei ordeinio i'r weinidogaeth yng Nghapel Mynydd Bach yn 1959 a bu'n gweinidogaethu yno gydag Eirlys ei wraig nes derbyn galwad i'r Priordy yn 1965.

Cawsom gyfle wedyn i ymweld â bedd Gwyrosydd (1847-1920), cyn mynd yn ôl i gael Cinio Sul ardderchog a blasus yn y Welcome Inn, sydd drws nesaf i'r capel.

Nôl i'r bws gyda stumogau llawn a chael ein tywys trwy bentrefi megis Tre-boeth ble gwelsom Gapel Caersalem Newydd ble mae John

Hughes, cyfansoddwr y dôn Calon Lân, yn gorffwys a gweld y plac glas sydd yn ei goffáu ar fur y capel.

Diolch i'n Gweinidog am gyflwyno hanes diddorol holl adeiladau a chapeli nodedig Dinas Abertawe ar ein ffordd i lawr i'r Mwmbwls ac Ystumllwydiarth (Oystermouth). Cael orig hyfryd yno ac roedd rhaid cael hufen iâ yn Joe's on'd oedd e!! Diolch i Elfed am ein gyrru'n ofalus fel arfer.

***DIOLCH*** i'n Gweinidog am drefnu Pererindod arbennig a diddorol iawn eleni eto. Ble ewn ni'r flwyddyn nesa tybed? Edrych ymlaen yn barod!




| | |
|---|---|
|  | **Bydd Stondin gan yr Ofalaeth yno** |

# BOWLIO DEG



Nos Wener, 12 Mehefin, mwynhawyd noson hyfryd yn bowlio deg yn y ganolfan yn Nhre Ioan a drefnwyd gan aelodau Cana a Bancyfelin.


Bu cryn gystadlu rhwng y timoedd a oedd yn cynnwys aelodau o bob cenhedlaeth o'r eglwysi. Ar ôl awr o hwyl, mwynhawyd pryd o fwyd blasus yn y Fox & Hounds, Bancyfelin.

Diolch o galon i Marlene Jones (C) ac Eirian Thomas (B) am drefnu noson hwyliog a llwyddiannus iawn





## Ifanc@Gofalaeth



Mae'r hâf wedi dod! Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch am eich ffyddlondeb i'r Ysgol Sul dros y flwyddyn ddiwethaf. Mwynhewch yr hâf!

*I'ch dyddiadur*

**MABOLGAMPAU'R YSGOLION SUL**

*Trefinr gan MIC*


**NOS WENER, 10 GORFFENNAF**
**YSGOL MAES Y GWENDRAETH**

## Tripiau yr Ysgolion Sul

Cafwyd amser da gan Ysgolion Sul Cana a'r Priordy yn fferm antur Clerkenhill ger Hwlffordd a chan Ysgol Sul Elim yn Cwtch Newydd, Capel Hendre – y naill drip a'r llall ar yr un diwrnod – dydd Sadwrn 27 Mehefin. Gobeithio na chafodd y gweinidog docyn am *sbîdo* rhwng y naill le a'r llall! Mae lluniau mewn man arall yn y papur hwn.



Helpwch y bugail i ddod o hyd i'r ddafad sydd ar goll!



Gwyliwch y ffilm i glywed hanes y Ddafad aeth ar goll!
https://gair.cymru/wp-content/uploads/Ffilmiau%20Plant%20EBC/Y%20ddafad%20aeth%20ar%20goll.mp4

Tan fis Medi, hwyl fawr i chi gyd

Beti Wyn



# TRIPIAU'R YSGOLION SUL

Cana a'r Priordy i Barc Antur Clerkenhill, Hwlffordd




Elim i Cwtsh Newydd, Capel Hendre a Hufen Iâ Franks i ddilyn



## Cwrdd Chwiorydd

**Cynhaliwyd Cwrdd Chwiorydd Blynyddol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yng Nghapel Bryn Iwan yn ystod y mis.**



**Roedd rhannau arweiniol yr Oedfa yng ngofal Marlene Jones (C) a Rhian Bowen (C) cyn i Beti-Wyn sydd wedi gwasanaethu fel Llywydd am y flwyddyn ddiwethaf drosgwyllo Beibl y Llywydd i Rhiannon Mathias o Fryn Iwan.**

**Cawsom ein harwain mewn oedfa hyfryd gan chwiroydd Bryn Iwan gan feddwl am ymgyrch ddiweddaraf Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Pum Peth Pwysig. Cyhoeddwyd y Fendith gan Carys Davies ar ran Peniel a Bwlch-y-corn.**

**Mwynhawyd paned yn y festri wedi'r oedfa.**

**Diolch yn fawr iawn i chwiorydd ein gofalaeth a gefnogodd yr oedfa.**



**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**
**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

**St Michael de Rupe, Brentor, Dyfnaint**



**Mae’r eglwys yn Brentor, pentref sydd wedi'i leoli yn Nwyrain Dyfnaint, tua phum milltir i'r gogledd o Tavistock, ar ymyl gorllewinol Parc Cenedlaethol Dartmoor.**

**Sefydlwyd yr eglwys yn 1130 gan Robert Giffard, tirfeddiannwr lleol.**

**Saif ar Brent Tor, man sy’n nodedig am ei greigiau llosgfynyddol folcanig a’i gyswllt â chloddweithiau Oes yr Haearn.**

**Dyma un o’r eglwysi uchaf yn Lloegr. Mae’n sefyll 1,110 o droedfeddi uwchlaw lefel y môr.**

**Mae’r eglwys yn parhau’n weithredol ac yn cynnal gwasanaethau’n rheolaidd a gwahanol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.**

**Mae’n lle poblogaidd ar gyfer priodasau.**

## ‘Y GYMDEITHAS’ ~ RHAGLEN 2026/2027~

**Dydd Sul, 20 Medi 2026 am 1 o’r gloch**
Yng NGWESTY’R LLWYN IORWG
CINIO SUL YR OFALAETH

**Dydd Mawrth, 20 Hydref 2026**
Am 2 y prynhawn yn FESTRI HEOL AWST
Siaradwr: TUDUR DYLAN – TEULU PARC NEST
Yng nghwmni’r Prifeirdd T James Jones, John Gwilym Jones,
Aled Gwyn a Tudur Dylan.

**Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2026 Am 12 erbyn 12.30 yp**
Yng NGWESTY’R HEBOG (FALCON)
CINIO NADOLIG Y GYMDEITHAS

**Dydd Mawrth 16 Chwefror 2027**
Am 2 y prynhawn yn FESTRI HEOL AWST
Siaradwr: Ion Thomas (Elim gynt) – Atgofion

**Dydd Mawrth, 2 Mawrth 2027 Am 12.00 erbyn 12.30 yp**
Yng Nghlwb Y Quins, Caerfyrddin
CINIO GŴYL DEWI   Siaradwr:  Ifan Gruffydd, Tregaron

**Dydd Mawrth, 16 Mawrth 2027 am 2 y prynhawn**
TE Y PASG yn Nhafarn Y Fox & Hounds, Bancyfelin

**Dydd Mawrth, 20 Ebrill 2027**
Am 2 y prynhawn yn FESTRI HEOL AWST
COFIO DYFNALLT (1873 – 1956)
Gweinidog, llenor, bardd, Archdderwydd
(Gweinidog Eglwys Heol Awst 1910 – 1947)
Yng nghwmni yr hanesydd Eirug Davies a’r
Cantorion Aled ac Eleri Edwards, Cil-y-cwm

**NOS FERCHER, 5 Mai 2027**
Am 7 o’r gloch yn Festri Heol Awst
CYNGERDD CÔRAU BOIS Y WENNOL a MERCHED TREFWLAD
(ARWEINYDD DAI BAKER) Mynediad £10 wrth y drws

**DYDD SUL, 27 MEHEFIN 2027**
PERERINDOD YR OFALAETH

## BORE COFFI -MACMILLAN -COFFEE MORNING

Gwener 25 Medi 2026
Friday 25 September 2026

Clwb y Cwins, Abergwili
Quins Club Abergwili

10.00-12.00
Mynediad am ddim/Free entry

Stondynau/Stalls
Raffl

Croeso i bawb/All welcome

Trefnwyd gan Ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin
Arranged by the members of the pastorate of Carmarthen and Bancyfelin
Cyswllt/Contact Beti-Wyn James parchbetiwyn@gmail.com

# Mis Awst

Byddaf yn cymryd seibiant o'm gwaith
yn ystod mis Awst yn ôl fy arfer.
Bydd oefaon undebol yn y dref ar Suliau Awst,
ac fe fydd oedfa ddigidol yn cael ei rhyddhau.

Os bydd argyfwng yn codi yn fy absenoldeb a fyddech cystal â chysylltu ag Ysgrifenyddion yr eglwysi yn unig os gwelwch yn dda.

Diolch am eich cyd-weithrediad.
Beti-Wyn

BANCYFELIN: Joanne Richards 07412 254929
CANA: Marlene Jones 07528 454834
ELIM: Brian Walters 07717 005764
HEOL AWST: Nigel George 07583 114927
Y PRIORDY: Catrin Heledd Jones 07791 917713

**COFIO GARETH ALBAN DAVIES**

**Can mlynedd yn ôl i'r mis hwn, 30 Gorffennaf 1926 y ganed un o feibion mwyaf amryddawn Cymru, y llenor, y bardd a'r ysgolhaig Gareth Alban Davies, yn Nhonpentre yng Nghwm Rhondda, yn fab i Thomas Alban Davies a'i briod Hanna.**

**Brodor o Abergwili oedd y tad. Fe'i ganed yno 25 Medi 1892, yn un o blant Ebeneser yn y pentref. Bu'n gweithio gyda'r GWR cyn cael ei anafu a throi i gyfeiriad y weinidogaeth gan dderbyn ei addysg yng Ngholeg Myrddin, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a Choleg Presbyteraidd Caerfyrddin. Derbyniodd alwad i fod yn weinidog Bethlehem Tonpentre. Cafodd ei ordeinio yno yn 1925 ac yno y bu gydol ei oes ac eithrio ychydig o fisoedd a dreuliodd yn Hawen a Bryngwenith. Roedd yn un o aelodau cynnar Plaid Cymru. Fe'i disgrifir fel Cymro i'r carn, yn werinwr i'r bôn, yn un a ymfalchïai yn ei dras, ei wlad, ei genedl a'i hiaith. Dysgodd i'w fab syniadau pwysig am degwch a hunaniaeth Gymreig. Bu'n Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a thraddododd ei anerchiad o'r Gadair yn Undeb Llanrwst yn 1967. Hannai'r fam o Fochriw a bu'n gymar delfrydol i'w gŵr.**



**Roedd Gareth, y mab, yn perthyn i Gylch Cadwgan, grŵp o lenorion a oedd yn cyfarfod ar aelwyd J Gwyn Griffiths a'i wraig Kate Bosse-Griffiths yn y Pentre, Cwm Rhondda ac yntau'n dal i fod yn yr ysgol. Er mor ifanc ydoedd ysgrifennodd gerddi ar gyfer llyfr a gyhoeddwyd gan y grŵp. Gweithiodd fel un o'r Bevin Boys yn y diwydiant glo rhwng 1944 a 1947. Parhaodd i astudio ac enillodd ysgoloriaeth i Goleg y Frenhines, Rhydychen. Astudiodd Ieithoedd Romáwns a graddio mewn Sbaeneg a Ffrangeg. Treuliodd ei yrfa wedyn yn Adran Sbaeneg Prifysgol Leeds, gan ddod yn Athro Ieithoedd Sbaeneg a Phortiwgaleg.**

**Yn 1953, priododd â Catherine "Caryl" Glyn Jones. Fel Gareth, roedd Caryl hefyd o Gwm Rhondda ac yn ieithydd dawnus. Gwnaethant eu cartref ger Otley, Swydd Efrog a chael pedwar o blant: Eleri, Catrin, Gwen, a Rhodri.**

Er iddynt fyw dros y ffin am ddegawdau, ceisiodd y ddau drosglwyddo i'r plant eu treftadaeth Gymraeg.

Ar ôl iddo ymddeol, symudodd Gareth a'i briod yn ôl i Gymru, gan sefydlu yn Llangwyryfon, Ceredigion. Bu farw Gareth yn Aberystwyth 9 Chwefror 2009. Roedd ei wraig wedi marw dwy flynedd ynghynt yn 2007.
.
Cyhoeddodd Gareth dair cyfrol o farddoniaeth - Baled Lewsyn a'r Môr (1964), Trigain (1986) a Galar y Culfor (1992) a dau ddyddiadur - Dyddiadur America (1967), a Tan Tro Nesaf (1976), sef llyfr am hynt a hanes y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, ynghyd ag erthyglau ar hanes a beirniadaeth lenyddol. Cyfrannodd yn helaeth i astudiaethau Sbaenaidd. Cyfieithodd Davies lawer o ysgrifau Sbaeneg i'r Saesneg a'r Gymraeg Roedd yn arbennig o adnabyddus am ei wybodaeth o weithiau awduron Sbaeneg enwog fel Fernando Arrabal a Federico García Lorca.

Yn un o'i gyfrolau mae ganddo gerdd er cof am ei dad, Thomas Alban Davies, Bu farw yntau 2 Hydref 1972 a chynhaliwyd ei angladd ym Methlehem Tonpentre ac Ebeneser Abergwili ble mae ei fedd. Yn y gerdd hon, synhwyrwn mor annwyl roedd Sir Gâr yn ei olwg:



Er Coffa am T.A.D. – Yn Wyneb Gorsedd

Llefaraf heddiw â llais gŵr sy'n fud.
Carai Fro Myrddin,
a mynnai i'w fab
pan groesem bont Llwchwr
godi ar ei draed a chyfarch gwell.

Roedd drws y nef uwch Abergwili,
a gwaelod ysgol Jacob
yng ngardd Eden bocs Dyffrynnog.

Soniai am fawrion bro,
Pantycelyn a adnabu'r galon ddofn,
Ben Simon a'I cododd hi o'r memrwn hen,
yr Esgob Ferrar a roes ei galon i'r gwir

a'i gorff i'r fflamau.

A charai'r gweryd:
Pont Gaer yn iau dyner ar Dywi,
a throeon ei gyrfa mor felys
Dan lygad meddylgar y crëyr glas;
y fantell werdd ar ysgwydd Myrddin,
a'r dewin yn ei wallgorfrwydd
yn arllwys sofrenni a darnau arian
ar allt a dôl.

Pwy all atal llawenydd y meirw,
neu dagu gobeithion y byw?
Mewn cylch o gofio
safwn heddiw a chyfarchwn well.
Ymhen y flwyddyn gron
codwn
o welltglas oesoedd,
marwydos Maridunum,
a haearn y meirw a'r byw,
fur yn erbyn llif difodiant.

| | |
|---|---|
| <br><br>Dyma ail-ddychmygiad beiddgar o glasur Islwyn Ffowc Elis sy'n gofyn pa ddyfodol sy'n cael ei greu gan ein heddiw? | **FRÂN WEN**<br>**yn cyflwyno**<br><br>**WYTHNOS YNG NGHYMRU FYDD**<br><br>**Dramodydd: Mared Llywelyn**<br><br>**Nos Fawrth 13 Hydref 2026**<br>**7.30pm**<br>**Theatr y Lyric**<br>**Tocynnau: £20/£18.50**<br>**Addas ar gyfer 14+** |

**Beth am droi at**
**Wefan yr Undeb?**
**www.annibynwyr.org**

**CAPEL HEOL AWST**

**CWRDD HANNER BLYNYDDOL**

**Dydd Sul 13 Medi 2026 – 3 o'r gloch**

**Y PARCHEDIG OWAIN LLYR EVANS**
***Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***



**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL**
**DYDD LLUN 21 MEDI 2026**
**Cofiwch wylio am drefniadau Cymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin i godi'r Faner Heddwch Ryngwladol y tu allan i Neuadd San Pedr am 5 o'r gloch**
***Thema eleni – Buddsoddwch mewn Heddwch – i Bawb, ym Mhobman, Bob Dydd***

**COFIO SULWYN**
**DYDD GWENER 7 AWST 2026**
**Eisteddfod y Garreg Las - Cymdeithasau - 17.30**
Cyfeillion a Chydweithwyr yn talu teyrnged i un o ddarlledwyr mwyaf poblogaidd Cymru

**Y Samariaid yng Nghymru: Ffoniwch 116 123**
**Tir Dewi: Ffoniwch 0800 121 4722**
**Anxiety UK: Ffoniwch 03444 775774**
**CALM: Ffoniwch0800 585858**
**Mind: Ffoniwch 0300 123 3393**
**No Panic: Ffoniwch 0844 967 4848**
**Bereavement: Ffoniwch 0800 068 4141**
**Abuse: Ffoniwch 0808 2000 5000**
**Refuge:Ffoniwch 0808 200 0247**
**DPJ, Rhannwch Y Baich – 0800 587 4262**
**neu'r linell neges destun – 07860 048 799**

**Aelodau'r Ofalaeth yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Towers, Abertawe**

***Gweler y Rhwydwaith***





***EIN*** cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Eirlys Jones (P), Ifor Evans (P), Eleri Thomas (P), Elis Jones (P), John Hancock (C), Ifan Morgans (P), Vera Thomas (B), David Morgan (E), Olwen Williams (P) ac Anne Jones (B). Cofion annwyl atoch i gyd.

Mae Gwyn Davies (E) wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd gyda'r teulu - dymuniadau gorau a chofion gorau a diolch am y gwaith mae e wedi'i wneud yn Elim dros y blynyddoedd. Mae'r Parchedig Emyr Wyn Thomas (C) wedi ymgartrefu yn Awel Tywi, Ffairfach. Danfonwn ein cofion gorau ato. Ein dymuniadau gorau hefyd i Eirlys Jones (P) sydd wedi symud i fyw yng Nghartref Annwylfan, Betws, Rhydaman.

Mae Côr Eifionydd- côr cymysg o ardal Eifionydd – yn dathlu'r deugain eleni. A bu Pat Jones (P) yn sôn am hyn ar Heno ar S4C. Mae'r Côr wrth eu bodd gyda'r gân newydd 'Bob Nos Lun' gan Eric Jones a Mererid Hopwood a gafodd ei chomisiynu i ddathlu'r achlysur arbennig hwn. Cynhaliwyd cyngerdd y dathlu yng Nghricieth yn ddiweddar.

Bu Beti-Wyn ar Prynhawn Da yn siarad am berthynas Dealltwriaeth Artiffisial a byd crefydd – pwnc mor bwysig ac amserol yn ein dyddiau ni. Bu Cadi ac Ifan Morgans (P) yn siarad am eu hwythnos yn Eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn a thaith i Folley Farm yn y fargen! Da iawn blant! Un a fu'n gohebu i'r BBC yn Eistddfod yr Urdd yw Annell Dyfri (HA). Golygodd dreulio amser ar Ynys Môn – cartref y teulu ar ochr Llio Dyfri,ei mam.

Bu'n gyfnod prysur i Elinor Wyn Reynolds (P), Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, yn trefnu'r Cyfarfodydd Blynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Towers Abertawe. Ein Gweinidog fu'n arwain y Myfyrdodau Beiblaidd a Tudur Dylan Jones (P) fu'n traddodi Darlith y Gymdeithas Hanes gyda Joan Thomas (HA) yn cadeirio'r cyfarfod. Testun darlith Dylan oedd Eifion Wyn, y byddwn yn cofio'i golli gan mlynedd yn ôl ym mis Hydref eleni. Bu Elinor yn sôn am y cyfarfodydd ar Bwrw Golwg ar Radio Cymru. Does dim pall ar ei phrysurdeb - hi yw un o'r beirniaid yn Nhystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Maldwyn Meirionnydd 2027!

Mae'r bardd Menna Elfyn (P) wedi galw ar bob gwlad i ddysgu iaith ei chymydog fel ffordd o adeiladu pontydd rhwng pobol. Mae'n ymddangos ar bennod newydd o'r podlediad The Glimpse, o'r enw A Failed Recluse,

dan ofal Sefydliad Barddoniaeth Adrian Brinkerhoff. Mae'n trafod sgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg, troi cystrawen ar ei phen a chanfod tir cyffredin drwy iaith. Mae'n darllen ei cherdd 'Let the World's People Sing' yn Gymraeg ac yn Saesneg. a 'Don't Ask Me' gan R. S. Thomas hefyd.

Hyfryd gweld Sheila Philips (C) yn sgwrsio ar Newyddion S4C a BBC – dymuniadau gorau i'r teulu wrth i Fecws County Stores, Sanclêr ailagor wedi difrod y llifogydd.

***LLONGYFARCHIADAU*** mawr i:

- Mari Grug (B) ar gael ei dewis yn Llywydd Eisteddfod y Garreg Las – ardderchog yn wir.
- John Meredith (P) sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ar 16 Gorffennaf. Pob dymuniad da oddi wrthym i gyd.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

Katie Evans (B) wedi colli modryb, Pat Evans, Cross Hands

John Meredith (P) wedi colli ei efaill, Marion Bowen, Llangadog

Mwynwen Jones (P) ar farwolaeth ei modryb, Rhiannon Griffiths, Llanfynydd

Jayne Fallon (C) ar farwolaeth ei thad yng nghyfraith, Bernard Fallon, Westmeath, De Iwerddon

Eleri Marks (HA) wedi colli nai – Paul John, Caerfyrddin

Lowri Davies (P) wedi colli modryb, Christine Evans, Troed yr Aur

Nia a Elfed Lewis, Angharad, Ieuan a'r plant Greta, Miriam a Noa ar golli mam Nia. mam-gu Angharad a hen fam-gu'r plant, Tegwen Griffiths Aberystwyth

Eifiona Griffiths (C) ar farwolaeth ei chymar Dai Thomas

**Meddyliwn amdanoch oll yn eich colled a'ch hiraeth.**

## DYLETSWYDDAU GORFFENNAF - MEDI

**BANCYFELIN**

Gofalwr Gorffennaf - Margaret Evans
Gofalwr Medi - Moira Howells
Cyhoeddwr Gorffennaf - Veronica Evans
Cyhoeddwr Medi - Veronica Evans
Organydd Gorffennaf - Margaret Evans
Organydd Medi - Trefina Jones
Blodau:
Gorffennaf 5 - Margaret Evans
Gorffennaf 19 - Angharad Jameson
Medi 6 - Moira Howells
Ymwelwyr Gorff/Awst - Trefina Jones ac Eirian Thomas
Ymwelwyr Medi/Hydref - Gwyneth Griffiths a Meinir Walters

**CANA**

Gofalwr Gorffennaf - Mair Jones
Gofalwr Medi - Carolyn Hancock
Cyhoeddwr - Marlene Jones
Organydd - Mair Jones
Blodau:
Gorffennaf 5 - Lowri Jones
Gorffennaf 26 - Teulu Plasparcau
Medi 13 - John a Vernon Thomas
Ymwelwyr Gorffennaf - Gweinidog
Ymwelwyr Medi/Hydref –
Rhian a Meurig Bowen, Bet a Kendeick Jones

**ELIM**

Cyhoeddwr: Brian Walters
Blodau:
Gorffennaf 5 - Bethan Morgan
Gorffennaf 26 - Ann Evans
Awst 30 - i’w drefnu
Medi 6 - Maureen Jones
Gosod y Bwrdd Cymun:
Gorffennaf 5 - Pat Davies
Awst 30 – Anona Dafis
Medi 7 - Laura Evans
Ymwelwyr Gorff/Awst- Yr aelodau
Ymwelwyr Medi/Hydref - Yr aelodau

**HEOL AWST**

Cyhoeddwr: Nigel George
Ymwelwyr Gorffennaf/Awst - Yr aelodau
Ymwelwyr Medi/Hydref - Yr aelodau
Cyfeilydd:

Gorffennaf 16 - Olga Williams
Awst 3 - Olga Williams
Medi 13 - Olga Williams

Dyletswyddau'r Sul:

Gorffennaf - Phil Hopley a Helen Jones
Awst - i'w drefnu
Medi - Rhian Jones a Nigel George

**Y PRIORDY**

Gofalwr Gorffennaf - Alison Parsons
Gofalwr Awst - i'w drefnu
Gofalwr Medi – Elinor Wyn Reynolds
Cyhoeddwr Gorffennaf - Jayne Woods
Cyhoeddwr Awst - i'w drefnu
Cyhoeddwr Medi - Adrian Evans
Gosod y Bwrdd Cymun Gorffennaf - Alwen Owen a Fiona Elias
Gosod y Bwrdd Cymun Medi – Eleri Thomas a Delyth Davies

Darllenwyr:

Gorffennaf 5 - Angharad Wyn
Gorffennaf 12 - Sul y Cyfundeb
Gorffennaf 19 - Eirlys Davies
Gorffennaf 28 - Catrin Ann Thomas
Awst 23 - Peter Hughes Griffiths
Medi 6 - Rhodri Rees

Ymwelwyr Gorffennaf / Awst

Emlyn Schiavone
Eurwen Jones ac Ann Thomas
Carys Morgans a Miriam Wyrwoll

Ymwelwyr Medi/Hydref - Gweinidog

Blodau:

Gorffennaf 5 - Margaret Evans
Gorffennaf 12- Sul y Cyfundeb
Gorffennaf 19 - Luned Thomas
Gorffennaf 26 - Luned Thomas
Awst 23 - Myfanwy a Brian Jones
Medi 6 - Catrin Haf Williams

| **CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH** | | | |
|---|---|---|---|
| **BANCYFELIN** | **Nos Fawrth 30 Mehefin** | **7.30** | **Y Festri** |
| | | | |
| **CANA** | **Prynhawn Iau 17 Medi** | **1.30** | **Y Festri** |
| | | | |
| **ELIM** | **Bore Mercher 16 Medi** | **11.00** | **Y Capel** |
| | | | |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher 16 Medi** | **2.00** | **Y Festri** |
| | | | |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun 28 Medi** | **7.00** | **Y Festri** |

## CYFARFOD ARBENNIG

**Cyfarfod arbennig i ddiconiaid Heol Awst a'r Priordy**

**Nos Fercher, 8 Gorffennaf am 7.00 yn Festri Heol Awst**



***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***

***Y PRIORDY***

***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

# MENTER CANA A BANCYFELIN







**Hyfrydwch gan Gapeli Cana a Bancyfelin oedd noddi twll ar Gwrs Golff Derllys ar Ddiwrnod y Merched! Aeth yr elw at Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru. Hefyd mae'r ddau gapel ymysg noddwyr Carnifal Bancyfelin. A phob lwc i'n Gweinidog a fydd yn beirniadu 'Bake-off Bancyfelin' ar ddiwrnod y Carnifal. Mwy am hyn ym mis Medi!**

**Amserlen yr Ysgolion Sul – Gorffennaf 2026**

| **Cana** | **Y Priordy** |
|---|---|
| **5 Gorffennaf – Picnic a Chwaraeon**<br>**12 Gorffennaf – Ymuno â'r Sul Sbesial (2.00 – Ysgol Gruffydd Jones)**<br><br>**Elim**<br><br>**5 Gorffennaf – Dim Ysgol Sul**<br>**12 Gorffennaf - Ymuno â'r Sul Sbesial (2.00)** | **5 Gorffennaf: Parti Diwedd Tymor**<br>**12 Gorffennaf: Ymuno â'r Sul Sbesial (2.00)**<br><br> |

| DYDDIAD | 10.00<br>oni noder yn wahanol | 11.30 | 1.30<br>oni noder yn wahanol | 3.00 | 5.00 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf 5** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim + HA ©<br>Gweinidog | Cana ©<br>Gweinidog | | |
| **Gorffenanf 12** | | | Sul Y Cyfundeb<br>Ysgol Gruffydd Jones, San Clêr | | Rihyrsal Cymanfa Ganu<br>5 o'r gloch<br>Festri'r Tabernacl |
| **Gorffennaf 19** | Priordy<br>Gweinidog | | Bancfyelin ©<br>Gweinidog | Heol Awst + E ©<br>Gweinidog | |
| **Gorffennaf 26** | Priordy<br>Gweinidog | Elim + HA<br>Gweinidog | Cana<br>Gweinidog | | |
| **Awst 2** | Heol Awst<br>Undebol i'r dref<br>Alun Lenny | | | | |
| **Awst 9** | Penuel 10.30<br>Undebol i'r dref | | | | |
| **Awst 16** | Tabernacl<br>Undebol i'r dref<br>Gwyn Elfyn | | | | |

| DYDDIAD | 10.00<br>oni noder yn wahanol | 11.30 | 1.30 | 3.00 | 5.00 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awst 23** | Priordy<br>Undebol i'r dref<br>Gareth Morgan<br>Jones | | | | |
| **Awst 30** | Elim 10.30 ©<br>Undebol i'r dref<br>Catrin Ann | | | | |
| **Medi 6** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim + HA ©<br>Gweinidog | Bancyfelin ©<br>Gweinidog | | Rihyrsal Cymanfa Ganu<br>5 o'r gloch<br>Festri'r Priordy |
| **Medi 13** | Priordy<br>Oedfa Deulu<br>Gweinidog | | Cana © | Heol Awst + E,P ©<br>Cyrddau hanner<br>blynyddol<br>Owain Llyr Evans | Rihyrsal Cymanfa Ganu<br>5 o'r gloch<br>Babell Zion Newydd |




**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN**
**CWRDD CHWARTER**



**Dydd Iau 10 Medi 2026 -**
**Capel Hermon, Cynwyl Elfed, SA33 6SR**

**Y Gynhadledd am 4.00 / Cyfarfod yr Hwyr am 7**

**Croesawu cynrychiolwyr o 'r Tabernacl, Efail Isaf, yn yr hwyr i siarad am y newidiadau y maen nhw wedi'u gwneud yn yr eglwys**